# HYSBYSIAD ETHOLIAD
## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN
## ETHOL CYNGHORYDD/CYNGHORWYR CYMUNED

AR GYFER CYNGOR CYMUNED HENLLYS

| WARD | NIFER Y CYNGHORWYR |
|---|---|
| **HENLLYS** | **(1)** |

1. Rhaid cyflwyno papurau enwebu â llaw i'r Swyddog Canlyniadau, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen NP4 6YB neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad cyflwyno electronig isod. ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau 9.30am – 12 canol dydd / 1.00pm - 4.30pm, dydd Gwener 9.30am – 12 canol dydd / 1.00pm - 4.00pm ond heb fod yn hwyrach na **4pm ddydd Gwener 27 Medi 2024.**
2. Gellir cael papurau enwebu o swyddfeydd y Swyddog Canlyniadau, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB yn ystod yr amseroedd a nodir uchod neu maent ar gael ar https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/ymgeisydd-neu-asiant/ymgeiswyr-ac-asiantau-mewn-etholiadau-cynghorau-chymuned-yng-nghymru lle, ar gais unrhyw etholwr am ward, y bydd papur enwebu yn cael ei baratoi i'w lofnodi.
3. Os bydd mwy nag un ymgeisydd yn yr etholiad, cynhelir pleidlais **Dydd Iau 24 Hydref 2024** rhwng **7am a 10pm**.
4. Rhaid i geisiadau i gyhoeddi, diwygio neu ddiddymu pleidleisiau drwy'r post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 6YB erbyn 5 p.m. **Dydd Mawrth 8 Hydref 2024**.
5. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 6YB erbyn 5 p.m. **Dydd Mercher 9 Hydref 2024**.
6. Rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl NP4 6YB erbyn 5 p.m. **Dydd Mercher 16 Hydref 2024.**
7. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy brys yn yr etholiad hwn ar sail analluogrwydd corfforol neu am resymau gwaith/gwasanaeth gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 6YB erbyn 5 p.m. **ddydd Iau 24 Hydref 2024**. Mae'n rhaid i'r anallu corfforol fod wedi digwydd ar ôl 5pm **ddydd Mercher 16 Hydref 2024**. I wneud cais ar sail gwaith/gwasanaeth, rhaid i'r person fod wedi dod yn ymwybodol na all fynd i'r orsaf bleidleisio'n bersonol ar ôl 5pm **ddydd Mercher 16 Hydref 2024**.

8. Mae nodiadau cyfarwyddyd atodol ar gyfer ymgeiswyr yn etholiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol ar gael ar https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/ymgeisydd-neu-asiant/ymgeiswyr-ac-asiantau-mewn-etholiadau-cynghorau-chymuned-yng-nghymru

**Datganiad cyflwyno electronig**

Rhaid anfon papurau enwebu a gyflwynir yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn.

A) Drwy e-bost

- Rhaid anfon enwebiadau i: Candidates@torfaen.gov.uk yn nodi Cyflwyno Enwebiad yn y maes pwnc
- Os ydych angen gwiriad anffurfiol, e-bostiwch: Candidates@torfaen.gov.uk gan nodi Gwirio Enwebiad yn Anffurfiol yn eich maes pwnc.
- Sicrhewch eich bod yn gofyn am dderbynneb a chadarnhau'r dderbynneb drwy ffonio: 01495 766074

Nodwch os gwelwch yn dda:

Cyfrifoldeb ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn ffurflenni enwebu yn y dull cywir erbyn y dyddiadau cau gofynnol.

Nid yw derbynneb electronig yn nodi ei fod wedi ei ddarllen gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon nodyn i hysbysu ymgeiswyr o'u penderfyniad o ran a yw eu henwebiad yn ddilys ai peidio.

Os ydych angen unrhyw gymorth gyda chyflwyno enwebiadau yn electronig, cysylltwch â Caroline Genever-Jones.

**STEPHEN VICKERS**
**SWYDDOG CANLYNIADAU**
Y Ganolfan Ddinesig
PONT-Y-PŴL Torfaen NP4 6YB

Dyddiad: 11 Medi 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB.